

## PHILLIPPS, Syr THOMAS (1792 - 1872), barwnig (cr. 27 Gorffennaf 1821), - hynafiaethydd, casglwr llawysgrifau, dogfennau, llyfrau, etc.

**Enw:** Thomas Phillipps  
**Dyddiad geni:** 1792  
**Dyddiad marw:** 1872  
**Rhiant:** Hannah Judd (née Walton)  
**Rhiant:** Thomas Phillipps  
**Rhyw:** Gwryw  
**Galwedigaeth:** hynafiaethydd, casglwr llawysgrifau, dogfennau, llyfrau, etc.  
**Maes gweithgaredd:** Hanes a Diwylliant; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Ysgolheictod ac leithoedd  
**Awdur:** William Llewelyn Davies

Ganwyd 2 Gorffennaf 1792 yn 32 Cannon Street, Manceinion, mab Thomas Phillipps (aelod o deulu a ymsefydlasai ers amser yn Broadway, sir Worcester) a Hanna Walton. Cafodd ei addysg yn ysgol Rugby ac yn University College, Rhydychen (B.A. 1815, M.A. 1820). Yn 1818 etifedodd holl eiddo ei dad, yn cynnwys stad Middle Hill, sir Worcester.

Er yn fachgen buasai'n casglu'n ddyfal a chan fod ganddo ddigon o fodion bu'n hawdd iddo adael i'r gwanc casglu llawysgrifau, dogfennau, etc., gynyddu a pharhau i gynyddu. Dywed ef ei hunan paham yr oedd yn ofynnol casglu, ac ychwanega hefyd ei fod yn dilyn esiamplau y casglwyr mawr hynny, **Syr Robert Cotton** a **Syr Robert Harley**. Rhydd y D.N.B. fanylion am yrfa Syr Thomas Phillipps ac am y casgliadau niferus, gwerthfawr, ac amrywiol a bwrcasodd - bu'n crynhoi casgliadau a chyfrolau a dogfennau unigol (a llyfrau printiedig) o wahanol wledydd yn Ewrop a Phrydain (cafodd un o lawysgrifau gwaith 'Gerallt Gymro' o'r Iwerddon); rhaid cyfyngu'r erthygl hon (gan i'r casgliad llawysgrifau rifo dros 60,000 o eitemau) a chyfeirio'n fras yn unig at gynnwys Cymreig y llyfrgell. Dechreuwyd gwerthu'r casgliad yn 1886 (ac nid ydys eto wedi gorffen gwerthu).

Yn 1895 prynwyd rhai o'r llawysgrifau Cymreig gan Lyfrgell Tref Caerdydd (gweler *Reports on MSS. in the Welsh Language*, Cardiff, ac adroddiadau printiedig pwyllog Llyfrgell Dinas Caerdydd); yn eu plith yr oedd un o lawysgrifau llenyddol cynharaf Cymru, sef 'Llyfr Aneirin,' a ddaeth i feddiant Syr Thomas trwy **Thomas Price** ('Carnhuanawc') ac eraill (gweler *Bulletin of the Board of Celtic Studies*, xi, 109-12) wedi iddo grwydro o lyfrgell Hengwrt (gweler **Robert Vaughan**, Hengwrt). Rhos **Syr John Williams** 108 o lawysgrifau Cymreig Middle Hill i'r Llyfrgell Genedlaethol, yn eu plith lawysgrifau **Edward Jones** ('Bardd y Brenin'); at y 108 hyn ychwanegor bellach (1951) y rhai canlynol: NLW MS 1366B , NLW MS 1381D , NLW MS 1383C , NLW MS 1396E , NLW MS 1405E , NLW MS 1406E , NLW MS 1407B , NLW MS 1408B , NLW MS 1431A , NLW MS 1478C , NLW MS 1540B , NLW MS 1542E , NLW MS 3643D , NLW MS 3646E , NLW MS 5009C , NLW MS 5025B , NLW MS 5026B , NLW MS 5027E , NLW MS 5031D , NLW MS 5037D , NLW MS 5041C , NLW MS 5042D , NLW MS 7851D , NLW MS 12390E , NLW MS 12391D , NLW MS 12392B , NLW MS 12391D , NLW MS 12392B , NLW MS 14839B , NLW MS 14840C .

Ei mwyn hwylsiadod i ysgolheigion sefydloddi Syr Thomas Phillipps, c. 1822, ei wasg argraffu breifat ei hun yn Broadway Tower ar stad Middle Hill; yn 1862 symudwyd y llyfrgell a'r wasg i Thirllestaine House, Cheltenham. Cafwyd llu o gyhoeddiadau o'r wasg hon yng nghwrs y blynnyddoedd, amryw ohonynt o ddiddordeb Cymreig - achau, rhestrau siryfion ac ustusiaid heddwch, siarteri, etc. Dyma esiamplau: *Barddoniaeth gan hen awdwy or Ancient Welsh poetry ; A Catalogue of the Manuscripts in Llannerch Library, taken June 21st 1787 ; Manuscripts at Porkington, the seat of William Ormsby Gore Esq. near Oswestry, co. Salop ; Will of Sir Richard Phillipps, Bart., Baron Milford*. (Dywedi'r fod Syr Thomas yn hawlio perthynas â rhai o deuluoedd 'Phillipps' Sir Benfro a de-orllewin Cymru.) Gwyddys ei fod yn awyddus ar un adeg i'r casgliad gael cartref parhaol yng Nghymru ac iddo ymgynghori ag awdurdodau trefol Abertawe; tybiodd hefyd y gellid ail-doi castell Maenor Bŷr (Manorbier) yn Sir Benfro er mwyn gwneuthur y lle hwnnw yn addas i'w dderbyn.

Bu farw yn Thirllestaine House ar 6 Chwefror 1872 a'i gladdu yn hen eglwys Broadway; gadawsai'r plast y a'r llyfrgell, etc., i'w drydedd ferch o'r wraig gyntaf. Gweler hefyd yr erthygl, **John Rowland** ('Giraldus').

### Awdur

**Syr William Llewelyn Davies**, (1887 - 1952)

### Ffynonellau

*Oxford Dictionary of National Biography*, a'r ffynonellau a roddir yno

*Catalogus Librorum Manuscriptorum in Bibliotheca Phillipica D. Thomae Phillipps, bt., impressum Typis Medio-Montanis, 1837-1871* (London 1824)

catalogiau ffyrn Sotheby (Llundain)

*Catalogue of Printed Literature in the Welsh Department, Cardiff Free Libraries* (1898)

*English Collectors of Books and Manuscripts (1530-1930) and their marks of ownership*

'rhagair' i William H. Robinson, *A Selection of Precious Manuscripts, Historic Documents and Rare Books, the majority from the renowned collection of Sir Thomas Phillipps, Bt., 1792-1872*; offered for sale by William H. Robinson, etc (London 1950)

A. N. L. Munby, *Phillipps Studies*

A. N. L. Munby, *Portrait of an Obsession: The Life of Sir Thomas Phillipps, the World's Greatest Book Collector* (New York 1967)

### Gweithiau

Thomas Phillipps, *Manuscripti Codices: Abbatiae Sancti Eligii. Circa Ann. 1778*

Thomas Phillipps, *Catalogus Bibliothecae Monasterii Corbeiensis: codex soecull XI* (1828?)

Thomas Phillipps, *A catalogue of the manuscripts in the archives at Lille. 1828* (Middle Hill Press 1828?)

Thomas Phillipps, *MSS. in Edward's Sale 1815: With the purchasers names*

Thomas Phillipps, *Index to the inquisitions post mortem, for the reign of Henry VII* (Worcestershire c.1856)

Thomas Phillipps, *Welsh pedigrees Ex Rotulis Walliae, in the Tower of London* (Middle Hill Press 1868)

Thomas Phillipps, *Cartularium S. Johannis Bapt de Caermarthen* (Cheltenham 1865)

Thomas Phillipps, *CartÃ¡ BaroniÃ¡ de Kemeys, in Com. Pembroke* (Worcestershire 1841)

Thomas Phillipps, *Mansell records*

Thomas Phillipps (gol.), *Glamorganshire Pedigrees: From the mss. of Sir Isaac Heard, Knt., Garter King of Arms*(Worcester 1845)

Thomas Phillipps, George Owen, *Pedigree of Wogan of Bouleston, Co. Pembroke* (from George Owen's MSS, at Middle Hill, No. 12380, in 1860)(Middle Hill Press c.1867)

Thomas Phillipps, *Excerpta ex Cartul. Cath. St. David*(Worcester c.1840)

Joseph Ayloffe, Thomas Phillipps, *1489 Cartae Antiquae in the Tower* (vide Ayloff's catalogue): Index of those which are printed(Middle Hill Press 1846)

Thomas Phillipps, *Index to the inquisitions post mortem, for the reign of Henry VIII*(Middle Hill Press c.1856)

Thomas Phillipps, *Index to the inquisitions post mortem, for the reign of Edward VI*(Middle Hill Press c.1857)

Thomas Phillipps, *Index to the inquisitions post mortem, for the reign of Philip & Mary*(Middle Hill Press c.1860)

Thomas Phillipps, *Index to the inquisitions post mortem, for the reign of James I*(Middle Hill Press c.1861)

Thomas Phillipps, *Index to the inquisitions post mortem, for the reign of Elizabeth, part I*(Middle Hill Press c.1864)

Thomas Phillipps, *Index to the inquisitions post mortem, for the reign of Elizabeth, part II*(Middle Hill Press c.1864)

Thomas Phillipps, *Index to the inquisitions post mortem, for the reign of Charles I*(Middle Hill Press c.1867)

## Dolenni Ychwanegol

VIAF: 73979081

Wikidata: Q2147709

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.



Arddull APA



Davies, W. Ll., (1953). PHILLIPPS, Syr THOMAS (1792 - 1872), barwnig (cr. 27 Gorffennaf 1821), hynafiaethydd, casglwr llawysgrifau, dogfennau, llyfrau, etc.. Y Bywgraffiadur Cymreig. Adferwyd 15 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-PHIL-THO-1792>

Copiar a ddyddio

Preifatrwydd a Chwcius  
Hawlfraint  
Y Prosiect  
Cymorth  
Cysylltu

LLGC  
NLW

LLYFRGEL  
THE NATION



Noddar gan  
National Assembly  
Sponsored by  
Welsh Government